




Gair am Air

Cylchlythyr Llythrennedd Ysgol Dyffryn Conwy

Rhifyn Medi 2024

“Mae darllen yn sgil allweddol sy’n para am oes. Mae darllen yn galluogi plant i fod yn greadigol, yn uchelgeisiol, yn hyderus ac yn llawn empathi.” Addysg Cymru/Education Wales

Yn y rhifyn hwn



- Caru Darllen Ysgolion
- Sialens Ddarllen yr Haf 2024
- Llyfrgell Llanrwst
- Gwefannau da i chwilio am lyfr
- Llyfrgell yr Ysgol
- Argymhellion Athro
- Cornel Rieni
- Argymhellion llyfrau i flwyddyn 7

Caru Darllen Ysgolion

Gwylwch y clip yma o wefan [Cyngor Llyfrau Cymru \(Prosiect Caru Darllen Ysgolion\)](#) lle mae Ellis Lloyd Jones a Mel Owen yn egluro pam eu bod yn mwynhau darllen.



Sialens Ddarllen yr Haf 2024

Roedd yn hynod galonogol gweld cynifer o ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Conwy wedi cwblhau'r her o ddarllen chwe llyfr dros wyliau'r haf. Wnaethoch chi ddarllen 6 llyfr fel rhan o'r Sialens Ddarllen yr Haf 2024?

- Pa lyfr oedd eich hoff un? Pam?
- Beth mae darllen yn ei olygu i chi?



Llyfrgell Llanrwst



Cefnogwch eich llyfrgell leol ... sut?

1. Ymaelodwch â'r llyfrgell
2. Dilynwch y llyfrgell ar y cyfryngau cymdeithasol
3. Ewch yno i swatio ar brynhawn gwlyb
4. Ymunwch â rhai o'r grwpiau / gweithgareddau sy'n digwydd gyda'r nos yno.

Oriau agor Llyfrgell Llanrwst

- Dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener 9:30am i 5:00pm
- Dydd Mercher 10:00am i 7pm
- Dydd Sadwrn 9:30am i 12:30pm
- Dydd Sul Ar gau

Cyfleusterau

- Wi-Fi am ddim
- Mynediad am ddim i gyfrifiaduron cyhoeddus
- Argraffu, sganio a llungopïo

Manylion cyswllt

E-bost llyfrgell.llanrwst@conwy.gov.uk

Cliciwch [yma](#) i fynd i wefan y llyfrgell.

Gwefannau da i chwilio am lyfr ...



Beth am chwilio am lyfr Cymraeg addas ar y wefan [Sonamlyfra](#)? Cewch ddarllen adolygiadau gwych gan blant am lyfrau i blant. Neu beth am uwchlwytho adolygiad eich hun o lyfr y gwnaethoch chi ei ddarllen?

Neu ymwelwch â blog <https://gwanas.wordpress.com/> a darllenwch adolygiad Bethan Gwanas o'r llyfr *Sêr y Nos yn Gwenu* gan Casia Wiliam ac *Honesty and Lies* gan Eloise Williams.

Llyfrgell yr Ysgol



Byddwch yn cael cyfle i fynd i lawr i'r llyfrgell ysgol yn ystod y tymor hwn i ddewis llyfr.

Mae rhai dosbarthiadau wedi bod eisoes. Rydym yn treialu ychydig o syniadau newydd wrth ddefnyddio'r llyfrgell. Os oes gennych syniadau am sut i'w wella, cysylltwch â Mrs G Ifan neu eich tiwtor dosbarth.

Argymhellion athro




Mae Miss **Siwan Price** wedi bod yn chwilota am lyfr yn llyfrgell yr ysgol yn ystod mis Medi ... a'i dewis hi y mis hwn oedd *Gladiator* gan Bethan Gwanas.

Bydd Miss Price yn dod i wasanaeth Blwyddyn 7 ar Hydref 8 i sôn a chyflwyno ei llyfr hi i chi.

Cornel Rienl ...


“Wrth i'ch plentyn ddechrau darllen yn annibynnol, gall eich anogaeth chi gyfoethogi eu siwrnai ar hyd llwybr darllen. Mae â wnelo darllen ag ymestyn gorwelion a thanio chwilfrydedd”, Addysg Cymru/Education Wales

Gwefan ddefnyddiol: Darllenco.cymru




1 - Annog darllen mewn dysgwyr hŷn


Argymhellion llyfrau i flwyddyn 7



***Cadi Goch a'r Crochan Hud*, Simon Rodway (9-12 oed) – allan nawr!**

Dyma'r ail anturi Cadi Goch a'i ffrindiau yn yr Ysgol Swynion. A fydd hi'n bosib iddyn nhw atal y cynllwyn i ddwyn y crochan o'r Llyfrgell Genedlaethol? Nofel yn null straeon Harry Potter, ond â naws gwbl Gymreig.





***Where the River Takes Us*, Lesley Parr (9-11 oed) – allan nawr!**

Gan awdur *The Valley of Lost Secrets*, dyma antur gyffrous, hanesyddol, wedi'i gosod ar gefnlen streiciau'r glowyr yn y 1970au, sy'n berffaith ar gyfer darllenwyr oedran 9+. Gydag adleisiau o *Stand By Me*, ceir yma antur o'r radd flaenaf, yn cynnwys portreadau cywrain a llinyn storiol gafaelgar ar themâu perthnasol. Ffuglen hanesyddol oesol a gwych.

[Llyfrau wedi eu targedu ar gyfer eich oed chi ym mlwyddyn 7:](#)

Chwiliwch am y cyfresi yma:

- Cyfres Miss Prydderch
- Cyfres yr Onnen
- Cyfres y Mellt
- Cyfres Pen Dafad
- Cyfres Whap
- Cyfres y Dderwen

Tan tro nesaf, mwynhewch y darllen!

